Y Rhaglen IDEAL Cylchlythyr Rhif 14 Chwefror 2023

# BYW'N DDA A HYBU BYWYD EGNIOL:

# RHAGLEN IDEAL

Croeso i gylchlythyr cyntaf 2023. Gobeithio eich bod yn cadw'n iach, ac y bydd hon yn flwyddyn ddiddorol, llawn hapsurwydd.

## Y Diweddaraf am Raglen IDEAL

Rydyn ni'n dechrau degfed flwyddyn a blwyddyn olaf y rhaglen IDEAL ac am flwyddyn fydd hon.

Mae'r tîm yn brysur yn ysgrifennu canfyddiadau yn ogystal â pharhau i gynnal digwyddiadau i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith gwych a wnaed gyda'ch cymorth chi, ac rydyn ni'n ysgrifennu llyfr!

Rydyn ni'n cynnal cyfres o weminarau am ddim yn ystod 2022-2023 ar Zoom. Mae'r gweminarau hyn yn rhoi cyfle i ni rannu ein canfyddiadau gyda chi ac maen nhw'n trafod amrywiaeth o bynciau, megis **Cysylltiad cymdeithasol a chymunedol mewn dementia** a **Thechnoleg gynorthwyol a dementia**. Maen nhw'n cael eu cynnal gan ymchwilwyr ac arbenigwyr profiadol.

Gallwch archebu lle arnynt yma www.idealproject.org.uk/news/events a chael mynediad at recordiadau o'r rhai sydd eisoes wedi'u cynnal.

## Ffilm Ddogfennol yn Seiliedig ar Ganfyddiadau IDEAL



Cafodd y ffilm ei dangos i'r gymuned mewn cartref gofal yng Ngogledd Llundain.

'Llwyfannwyd drama 'The World Turned Upside Down' yng Nghaerwysg ym mis Ionawr 2022.

Roedd y ddrama'n sôn am gyfathrebu yng nghyd-destun dementia. Roedd yn portreadu sefyllfaoedd yn cynnwys unigolion, aelodau o'r teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, lle'r oedd y canlyniad yn dibynnu ar yr hyn a gafodd ei gyfathrebu, a sut.

Cynhyrchwyd ffilm am y broses o wneud y ddrama a'r ddrama ei hun.

Mae'r ffilm ar gael am ddim ar wefan IDEAL **www.idealproject.org.uk/projects/twtud** neu teipiwch **https://bit.ly/twtudfilm** yn eich porwr gwe.

Dyma ddyfyniad gan rywun a fu'n gwylio'r ffilm:
"Roedd y ffilm hon yn gynhyrfus ac yn hyfryd iawn mewn rhannau. Gresyn na fyddwn i wedi gwybod mwy am ddementia pan oeddwn yn gofalu am fy mam."



Golygfa o'r ddrama, yn dangos Gill (canol), mewn cymeriad, yn dweud wrth ei theulu am ei diagnosis o ddementia.

# Opera IDEAL




Llun gan Ian Smith

Rydyn ni'n falch ein bod wedi cael arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru i greu opera. Bydd 'Y Bont/Y Bont' yn seiliedig ar waith ymchwil a phrofiad go iawn IDEAL. Cynhelir y perfformiadau yng Ngogledd Cymru a bydd recordiad yn cael ei greu.

Wrth i ddyn gael i wthio i dywyllwch nad yw'n gallu ei reoli, mae ei anwyliaid yn dysgu creu eiliadau o gariad, dealltwriaeth, hunan-werth a hyd yn oed hiwmor i'w helpu i groesi'r bont rhwng realiti a'i feddwl ei hun.

Yn yr un modd â'r llwyddiant a gafwtd gyda'r ddrama a'r ffilm, rydyn ni'n gobeithio gwneud i bobl i feddwl am bwysigrwydd cyfathrebu a gweithredoedd pobl eraill.

Bydd yr opera yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi, ar 31 Mawrth, yn Saesneg, ac 1 Ebrill yng nghanolfan Pontio, Bangor, yn Gymraeg. Os hoffech ddod neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni .

# Cyhoeddiadau IDEAL

Wrth i ni agosáu at ddiwedd rhaglen IDEAL, rydyn ni am dynnu sylw at ein cyhoeddiadau. Erthyglau ymchwil yw'r rhain sy'n seiliedig ar y wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i ni dros y blynyddoedd. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i gefnogi ymgyrchoedd i wella pethau i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia. Ar gyfer pob cyhoeddiad y mae ein hacademyddion yn ysgrifennu, rydyn ni'n paratoi crynodeb syml; dogfen fer sy'n symleiddio'r canfyddiadau.

Rydyn ni wedi cynnwys dau o'r crynodebau hyn gyda'r cylchlythyr i roi enghraifft i chi. Gallwch ddod o hyd i'n holl gyhoeddiadau a'n crynodebau ar ein gwefan
**www.idealproject.org.uk/activities/papers/**
Cysylltwch â ni os hoffech fwy o wybodaeth.

# Beth Hoffech Chi ei Weld?

Gan fod IDEAL yn dod i ben ddiwedd eleni, y cylchlythyr nesaf a anfonwn atoch fydd yr un olaf.

Hoffem glywed gennych chi am yr hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o grynodebau syml, i fwy o luniau o'r digwyddiadau yr ydym yn eu cynnal. Efallai yr hoffech chi ddweud wrth gyfranogwyr eraill beth mae IDEAL yn ei olygu i chi a rhannu stori am eich amser gyda'r prosiect.

Os yw hyn yn rhywbeth yr hoffech chi ei wneud, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion gyferbyn. Anfonwch e-bost neu ffoniwch ni os hoffech gael ein cyfeiriad post.
Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

# Cysylltwch â Ni

I gysylltu â ni, diweddaru eich manylion neu roi gwybod i ni am newidiadau i'ch amgylchiadau, cysylltwch â thîm IDEAL Prifysgol Caerwysg.

**Gallwch adael neges ar: rhif ffôn:**
**01392 724653**
**E-bost: IDEAL@exeter.ac.uk**
Rydyn ni'n anfon y cylchlythyr hwn atoch oherwydd eich bod wedi cymryd rhan yn y rhaglen IDEAL ac wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi.
**Am fwy o wybodaeth ewch i**
**www.idealproject.org.uk**

**Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter**
**@IDEALStudyTweet**